# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2019

Amser: 08.30 - 08.58

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Charlotte Thomas, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ateb Cwestiynau Llafar ar ran y Prif Weinidog, sy'n sâl.

Dywedodd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd datganiad llafar ychwanegol heddiw gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar TATA Steel.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais i ohirio Dadl Fer Suzy Davies o ddydd Mercher yr wythnos hon i'r dydd Mercher cyntaf ym mis Ionawr, a chytunwyd y bydd y bleidlais ar gyfer y tymor nesaf, pan gaiff ei chynnal ym mis Rhagfyr, yn dechrau gydag ail wythnos y tymor.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2019**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Mynediad at Fancio (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer Vikki Howells (Cwm Cynon) (30 munud) – *wedi'i gohirio o 13 Tachwedd*

### 3.4 Dadl Aelod: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 27 Tachwedd:

**NNDM7191**

**Lynne Neagle (Torfaen)**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**

**David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod nad yw un o bob pedwar o bobl sy'n cael diagnosis o ganser y pancreas yn y DU yn goroesi'r clefyd y tu hwnt i fis ac nad yw tri o bob pedwar yn goroesi y tu hwnt i flwyddyn, llawer ohonynt am nad oeddent yn cael eu trin yn ddigon cyflym.

2. Yn cydnabod bod tua 500 o achosion newydd o ganserau'r pancreas yng Nghymru bob blwyddyn, a bod tua 508 o bobl wedi cael diagnosis o ganser y pancreas yn 2015, ac y bu farw tua 451 o bobl o'r clefyd yn yr un flwyddyn.

3. Yn cydnabod mai canser y pancreas yw'r canser cyffredin mwyaf angheuol gyda phrognosis truenus sydd prin wedi newid yn ystod y 45 mlynedd diwethaf.

4. Yn croesawu mis ymwybyddiaeth canser y pancreas (Tachwedd) a'r gwaith y mae Pancreatic Cancer UK yn ei wneud i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r canser sydd â'r nifer isaf o ran goroesi, a'r cyflymaf o ran lladd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella cyfraddau goroesi ar gyfer pobl â chanser y pancreas yng Nghymru drwy:

a) triniaeth gyflymach, drwy ddysgu gan fodelau llawdriniaeth llwybr carlam yn Lloegr sydd wedi dangos canlyniadau addawol;

b) diagnosis cynharach, drwy ddysgu o Ganolfannau Diagnostig Cyflym sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr a'r treialon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; ac

c) cefnogaeth gyfannol, trwy gefnogaeth ddeietegol a maethol amserol i alluogi cleifion i oddef triniaeth yn well.

**Cefnogir gan:**

**Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)**

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y cais gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ymestyn craffu Cyfnod 1 i 14 wythnos, a newid canlyniadol i ddyddiad cau Cyfnod 2.

Cefnogodd Darren Millar, Rhun ap Iorwerth a Caroline Jones gynnig y pwyllgor i ymestyn yr amserlen. Roedd y Trefnydd yn gwrthwynebu i unrhyw newid gan y byddai'n dileu'r siawns o hyblygrwydd yn ddiweddarach, gan gynnwys ymestyn Cyfnodau 2 a 3 pe bai angen, a'r posibilrwydd o Gyfnod Adrodd. Yng ngoleuni'r gwahanol safbwyntiau a fynegwyd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i archwilio gyda'r Pwyllgor y posibilrwydd o gyfaddawd nad oedd yn golygu symud dyddiad cau cyfnod 2, hy cyfnod 1 hirach a chyfnod 2 byrrach.

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi sôn y bydd yn cyflwyno Bil Tai yn ymwneud â throi allan heb fai yn gynnar yn 2020, y disgwylir iddo gael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor. Awgrymodd y Rheolwyr Busnes y gellid trosglwyddo'r Bil hwn i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle'r Pwyllgor Cydraddoldeb,

Llywodraeth Leol a Chymunedau pe bai hynny o gymorth i leddfu'r pwysau ar y Pwyllgor.

### 4.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddyddiad cau o dydd Iau 5 Rhagfyr i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid adrodd ar y Gorchymyn drafft.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Penderfynodd y Pwyllgor y gallai aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu adael y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd i deithio i Wrecsam dim ond ar ôl i'r Amser Pleidleisio gael ei gynnal.

## 6 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes fod oedi i Gyfnod 3 y Bil Plant (Diddymu Amddiffyn Cosb Resymol) (Cymru) oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod cyn yr etholiad yn San Steffan.

Cwestiynodd y Rheolwyr Busnes am gysondeb o ran dull y llywodraeth mewn perthynas â'r cyfnod cyn yr etholiad, a dyfynnwyd cyhoeddiadau a wnaed trwy atebion i gwestiynau, yn ogystal ag mewn busnes a drefnwyd.

Nododd y Rheolwyr Busnes mai mater i'r Trefnydd yw Amserlen Busnes y Llywodraeth. Cytunodd y Trefnydd i hysbysu cyd-Weinidogion o'r pryderon a godwyd.